# CABINET ARBENNIG

## COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH 20 HYDREF 2020 AM 10.30AM

YN BRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff a Diogelwch y Cyhoedd), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi a Menter), J. Ridgewell (Amgylchedd ac Isadeiledd), E. Stenner (Perfformiad a Gwasanaethau i Gwsmeriaid) ac R. Whiting (Dysgu a Chyflawniad).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Cymunedau).

Hefyd yn bresennol:

S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio) C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Arsylwi (gyda chaniatâd yr Arweinydd):
Y Cynghorydd C. Mann

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd L. Phipps (Tai ac Eiddo) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. MATER EITHRIEDIG

Ystyriodd yr Aelodau dystysgrif prawf lles y cyhoedd gan y Swyddog Priodol a daethant i'r casgliad, at ei gilydd, fod lles y cyhoedd o gynnal yr eithriad yn bwysicach na lles y cyhoedd o ddatgelu'r wybodaeth, a

PENDERFYNWYD, yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y cyhoedd yn cael ei wahardd o weddill y cyfarfod oherwydd y byddai'n debygol y

datgelir gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4. RHAGLEN SAFLEOEDD STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU – CYFLEOEDD I NESSTAR, CAERFFILI

Darparodd yr adroddiad ddiweddariad i'r Cabinet ar raglen Safleoedd Strategol arfaethedig Llywodraeth Cymru gyda'r nod o ddatgloi safleoedd datblygu tir llwyd mawr sy'n canolbwyntio ar drefi ar gyfer datblygu tai/defnydd cymysg.

Ceisiodd yr adroddiad ystyriaeth y Cabinet o'r cyfleoedd mae'r rhaglen yn cynnig ar gyfer datgloi safle tir llwyd Nesstar/Hen Wernddu (Pecsi's Scrapyard) yng Nghaerffili i'w ailddatblygu ar gyfer cynllun defnydd cymysg sy'n cynnwys defnydd tai, cyflogaeth, addysg a lles/hamdden a buddion economaidd a chymdeithasol ehangach cysylltiedig y dref ar ôl COVID-19.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol trwy'r system pleidleisio electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, gymeradwyo'r argymhellion ym mharagraff 3.1.

Diolchodd yr Arweinydd i'r holl Swyddogion ac Aelodau a oedd yn rhan o gynnig yr adroddiad am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'r cynllun.

Terfynwyd y cyfarfod am 11.38am.

Cymeradwywyd a Llofnodwyd ei fod yn gofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhelir ar 11 Tachwedd 2020.

______________________

CADEIRYDD